A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

## Helpu fy mabi i ddysgu drwy chwarae: 6 i 9 mis oed.

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

# ARCHWILIO, TRIN A DYSGU AM Y BYD

| Syniad Chwarae | Sut mae'n helpu fy mabi? |
|---|---|
| Archwilio Llyfrau  | **Rhoi hwb i synhwyrau fy mabi**<br>• Edrych ar ddelweddau neu luniau gwahanol<br>• Dysgu i ddefnyddio'r ddwy law i droi tudalennau<br>• Teimlo gweadau gwahanol<br>• Gwrando ar yr hyn rydych yn ei ddweud (Adeiladu geirfa)<br>• Datblygu iaith a rhannu sylw |
| Stacio Cylchoedd  Tynnu gwrthrychau allan  | **Helpu fy mabi i gydsymud**<br>• Ymarfer gafael a rhyddhau<br>• Datrys problemau a dysgu drwy symud/gosod gwrthrychau<br>• Cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid<br>• Dysgu rhoi gwrthrychau mewn cynwysyddion a'u tynnu allan |
| Chwarae Dŵr   | **Helpu fy mabi i ddysgu drwy brofiadau amlsynnwyr**<br>• Mae chwarae â dŵr yn cynnig llawer o brofiadau synhwyraidd gwahanol (bath, pwll padlo, neu bowlen blastig yn llawn dŵr)<br>• Defnyddio cwpanau â thyllau yn y gwaelod, poteli plastig ar gyfer tywallt a chwistrellu<br>Noder: Peidiwch byth â gadael eich babi ar ei ben ei hun gyda dŵr |
| Peli  | **Helpu fy mabi i baratoi i gropian**<br>• Mwynhau archwilio<br>• Dysgu i gyrraedd pan fydd ar ei bedwar i wella cydbwysedd ac ysgogi cropian |
| Offerynnau  Gemau Rhyngweithiol  | **Helpu fy mabi â'i sgiliau rhyngweithio**<br>• Dysgu i gymryd tro (gwneud sŵn ac aros i'ch babi eich copïo)<br>• Chwarae gemau rhyngweithiol fel "gee ceffyl bach" a "ble mae bawdyn"<br>Noder: Nid oes angen i'r offerynnau fod yn gymhleth nac yn ddrud – os gallwch ei ysgwyd, ei guro, ei ratlo a gwneud sŵn, mae'n offeryn! |

**Wyddech chi?** Mae astudiaethau'n dangos bod rhieni'n siarad llai a bod babanod yn chwarae ac yn rhyngweithio llai pan fydd y teledu ymlaen yn yr ystafell, hyd yn oed os na fyddant yn ei wylio. Mae babanod yn hoffi chwarae a rhyngweithio â chi a dyna sut maent yn dysgu i siarad a datblygu.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

CEREBRAL PALSY CYMRU

Ei SMART
A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

## Awgrymiadau ar sut i gael babanod 6 i 9 mis oed i ymgysylltu'n well wrth chwarae:

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

## Sgiliau adeiladu

### Hybu Cropian



Crewch ofod llawr diddorol i annog symudiad. Symudwch deganau o gwmpas.

### Hybu iaith drwy enwi gwrthrychau



Helpwch eich babi i adnabod enwau gwrthrychau: "dyma dy gwpan"; "edrych, dyma Tedi"

### Edrych a chanfod



Dangoswch degan i'ch babi ac yna ei guddio o dan flanced neu y tu ôl i degan arall. Bydd hyn yn annog eich babi i symud a dysgu.

## Cofiwch bwysigrwydd ...

### Teganau symudol gyda botymau




Mae teganau achos ac effaith yn ddiddorol ar yr oedran hwn. Maent yn helpu'r cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid.

### Syrpréis chwareus



Hybu rhyngweithio rhyngoch chi a'ch babi. Ychwanegu hwyl!

### Twf Cymdeithasol ac Emosiynol



Bydd eich babi yn dechrau defnyddio emosiynau mewn modd rhyngweithiol, pwrpasol, h.y.: Cael eich sylw drwy weiddi a chwifio.

## Cadw eich babi yn ddiogel...

### Atal llosgiadau



Mae babanod o'r oedran hwn yn hoffi estyn. Cadwch ddiodydd poeth allan o gyrraedd babanod. Byddwch yn ymwybodol o'r peryglon

### Osgoi cerddwyr lle mae'r babi yn eistedd



Gallant atal y babi rhag cerdded a gallant fod yn beryglus. Gall rhai cerddwyr babi droi drosodd gan achosi i'r babi syrthio allan.

### Dim ond defnyddio teganau diogel er mwyn osgoi'r perygl o dagu




Mae plant o'r oedran yma yn hoffi rhoi teganau yn eu cegau! Sicrhewch fod pob tegan yn addas ac yn ddiogel i blant ifanc

**Did you know?** Babies learn by moving, exploring and doing things. The more they move the more they learn and the more they learn the more they move! Movement is important!

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

CEREBRAL PALSY CYMRU